Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Gwybodaeth i'r Wasg

25 Mai 2010

PROFIADAU NEWYDD AR FAES YR EISTEDDFOD

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn croesawu Eisteddfod yr Urdd i Stad Llanerchaeron yr wythnos nesaf – gyda maes yr Eisteddfod yn cwmpasu plasty, clos gweithio'n cynnwys llaethdy, golchdy, bragdy a thŷ halltu, dwy ardd cegin furiog mawr, parcdiroedd, llyn addurnol a chasgliad amaethyddol.

Bydd pawb sy'n ymweld â'r Eisteddfod yn medru crwydro o gwmpas yr adeiladau, y llyn, a'r gerddi gan fwynhau gwledd o weithgareddau wedi eu trefnu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i adlewyrchu bywyd yn y stad hunangynhaliol hon o'r 18fed ganrif.

Dywedodd Gwynn-Angell Jones o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru:

"Rydym yn falch iawn i groesawu Eisteddfod yr Urdd eleni ac yn edrych ymlaen at groesawu ymwelwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Mae'r bartneriaeth unigryw hon rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Urdd yn golygu y gall ymwelwyr i faes yr Eisteddfod edrych ymlaen at brofiad gwahanol iawn eleni yn Llanerchaeron.

"Yn ogystal â mwynhau'r cystadlu yn y pafiliwn a chrwydro o gwmpas y stondinau ar y maes, fe all ymwelwyr gamu nôl i'r ddeunawfed ganrif. Gallant gael cipolwg o fywyd yn y tŷ gwledig mawr fel yr oedd pan y bu deg cenhedlaeth o deulu'r Lewes yn byw yno ac yn galw stad Llanerchaeron yn gartref.

"Gall y mwy anturus yn ein plith hefyd fwynhau sesiynau bwshcrafft, dyfu eu llysiau eu hunain neu ddysgu sut i gynhyrchu mêl, cneifio dafad neu odro buwch! Mae 'na rhywbeth i bawb."

Mae'r rhaglen orlawn o weithgaredd yn cynnwys arddangosiadau coginio, yn defnyddio cynnyrch o fferm y stad, gyda'r cogyddion lleol Hazel Thomas a Gareth Richards, ynghyd â sgyrsiau dyddiol ar hanes Llanerchaeron a gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar draws Ceredigion.

Gall cyw arddwyr blannu eu llysiau eu hunain fel rhan o ymgyrch Bwydydd Bendigedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan fynd â'u potiau adref gyda nhw i fwynhau ffrwyth eu llafur.

Bydd cyfle i'r ymwelwyr mwy anturus chwilota o gwmpas y stad a dysgu sut i fyw ar ddim byd ond adnoddau naturiol yn sesiynau Bwshcrafft yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Ymunwch â'r cloddio archeolegol ar y maes carafannau, trowch eich llaw at archwilio llyn a physgota â gwialen, neu beth am ddysgu godro buwch gydag Undeb Amaethwyr Cymru

Swyddfa'r Wasg Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru The National Trust Wales Press Office
☎ 01492 860123 / Ffacs 01492 860233 ✉ llyr.gruffydd@nationaltrust.org.uk

yn y Sied Wartheg. Bydd arddangosiadau cneifio yn y sgubor ynghyd â chyfle i ddysgu am gadw ieir yng nghwmni rhai o'n cyfeillion pluog.

Gall ymwelwyr fwynhau casgliad unigryw Geler Jones o hen beiriannau, ceirt ac arteffactau amaethyddol a gedwir mewn sied a godwyd yn arbennig i'w cadw yn Llanerchaeron.

Nid yw'r gweithgareddau wedi eu cyfyngu i'r dydd 'chwaith gyda Thwmpath Dawns yn yr ardd yn Llanerchaeron ar nos Lun (6.30pm-8pm), taith gerdded o gwmpas Llanerchaeron ar nos Fercher (pawb i ymgasglu wrth Pwynt Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ger y tŷ am 6pm) a Thaith Arfordirol ar nos Wener (5-7pm) gyda thocynnau ar gael o brif stondin yn Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y maes.

Atodir rhaglen lawn o'r gweithgareddau a cheir mwy o fanylion o stondin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd wedi ei leoli yn y Neuadd Arddangos ar faes yr Eisteddfod.

Atodir hefyd lun yn dangos y plasty yn Llanerchaeron ar faes yr Eisteddfod.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion

1 Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Llyr Huws Gruffydd, Swyddfa'r Wasg yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru ar 01492 860123 neu 07786 278895. Bydd Llyr ar faes yr Eisteddfod drwy'r wythnos a gellir cysylltu ag ef ar 07786 278895.

2 Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym 1895 i ofalu am leoedd o ddiddordeb hanesyddol neu harddwch naturiol. Yng Nghymru mae hi'n gofalu am fwy na 45,000 hectar o gefn gwlad ac 140 milltir o'r arfordir yn ogystal â rhai o'n cestyll a gerddi harddaf. Yr Ymddiriedolaeth yw elusen gadwraeth fwyaf Ewrop ac mae hi'n derbyn cefnogaeth mwy na 3.7 miliwn o aelodau, 100,000 ohonynt yn byw yng Nghymru. Fel elusen mae hi'n dibynnu ar danysgrifiadau aelodaeth, rhoddion a chefnogaeth wirfoddol arall i gyfarfod â'i chostau cadwraeth a chynnal a chadw blynyddol o £148 miliwn. Mae meddiannau'r Ymddiriedolaeth yn unigryw oherwydd eu statws cyfreithiol – maent yn 'ddiymwad' ac nid oes modd eu gwerthu na'u morgeisio heb ganiatâd y Senedd.

Swyddfa'r Wasg Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru The National Trust Wales Press Office
☎ 01492 860123 / Ffacs 01492 860233 ✉ llyr.gruffydd@nationaltrust.org.uk